

Wales COVID-19 Evidence Centre
Canolfan Dystiolaeth COVID-19 Cymru

Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru
Health and Care Research Wales

# Mesurau atal a rheoli haint a ddefnyddir mewn lleoliadau addysg a gofal plant ar gyfer plant: crynodeb





Dr Chukwudi Okolie

7 Rhagfyr 2021
Iechyd Cyhoeddus Cymru

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Wales COVID-19 Evidence Centre
Canolfan Dystiolaeth COVID-19 Cymru

# Mae'r cyflwyniad hwn wedi'i seilio ar adroddiad a gynhyrchwyd gan Ganolfan Dystiolaeth COVID-19 Cymru (WCEC)

Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru
Health and Care Research Wales

**Mae ein hadroddiadau ar gael o wefan WCEC:**
https://healthandcareresearchwales.org/about-research-community/wales-covid-19-evidence-centre

**E-bost WCEC:**
WC19EC@cardiff.ac.uk

Mae'r Ganolfan wedi'i hariannu gan Lywodraeth Cymru trwy Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru. Nid yw'r farn sydd wedi'i mynegi yn y cyflwyniad hwn o reidrwydd yn farn Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

# Diolchiadau

Cynhyrchu'r adroddiad Adolygiad Cyflym:

Dr Chukwudi Okolie, Iechyd Cyhoeddus Cymru
E-bost: Chukwudi.okolie@wales.nhs.uk

Hannah Shaw, Iechyd Cyhoeddus Cymru
E-bost: Hannah.Shaw@wales.nhs.uk

Rocio Rodriguez Lopez, Iechyd Cyhoeddus Cymru
E-bost: RocioRodriguez.Lopez@wales.nhs.uk

Iechyd Cyhoeddus Cymru (Partner WCEC)
Grŵp Craidd WCEC

# Cefndir y Cwestiwn

Mae'r rôl y mae plant a lleoliadau addysgol yn ei chwarae mewn trosglwyddo COVID-19 yn y gymuned wedi bod yn bryder cyson trwy gydol y pandemig.

Mae amrywiaeth o fesurau atal a rheoli haint wedi'u cyflwyno mewn ysgolion a lleoliadau addysg ledled y byd.

Mae ymchwilio i effeithiolrwydd y mesurau hyn i benderfynu pa fesurau y dylid parhau i'w rhoi ar waith wrth i gyfyngiadau gael eu llacio yn hanfodol i ddarparu sail ar gyfer strategaethau rheoli haint Llywodraeth Cymru.

# Nod

Nodi, arfarnu a chydosod y dystiolaeth o **ymchwil eilaidd** sy'n gwerthuso effeithiolrwydd mesurau atal a rheoli haint a ddefnyddir mewn lleoliadau addysg a gofal plant.

# Graddau'r dystiolaeth

Nododd chwiliadau rhagarweiniol 2 adolygiad cyflym ac 8 *adolygiad parhaus*. Ceir crynodeb o ddarganfyddiadau o un Adolygiad Cyflym ac un Adolygiad Systematig parhaus:

National Collaborating Centre for Methods and Tools
Centre de collaboration nationale des méthodes et outils

**Adolygiad Cyflym Byw (NCCMT 2021)**

Wedi'i seilio ar feini prawf dethol llym / Yn cael ei ddiweddaru'n rheolaidd
Wedi'i arfarnu'n feirniadol a daethpwyd i'r casgliad ei fod o ansawdd da

Cochrane

**Adolygiad Cyflym Parhaus (Krishnaratne et al. 2021)**

Y disgwyl yw y bydd yn dilyn methodoleg gadarn a thrylwyr
Deilliannau perthnasol

National Collaborating Centre for Methods and Tools
Centre de collaboration nationale des méthodes et outils

# Adolygiad Cyflym Byw NCCMT (Diweddariad 17)

Nod: archwilio rôl benodol **lleoliadau gofal dydd ac ysgolion** mewn trosglwyddo COVID-19.

Poblogaeth: plant a phobl ifanc **(1-18 oed)**

Tystiolaeth: hyd at **22 Gorffennaf, 2021**

Cynhwyswyd: 3 synthesis a 6 astudiaeth sylfaenol
(1 hap-dreial clwstwr wedi'i reoli, 5 astudiaeth arsylwadol)

Mae sicrwydd o ran y dystiolaeth yn gyffredinol yn **isel (GRADD)**
"mae darganfyddiadau'n debygol o newid wrth i fwy o dystiolaeth ddod i'r fei"

National Collaborating Centre for Methods and Tools
Centre de collaboration nationale des méthodes et outils

# Adolygiad Cyflym Byw NCCMT: Darganfyddiadau

## Risg Lai o Drosglwyddo

Glynu at Fesurau Atal a Rheoli Haint mewn Ysgolion Cynradd a Lleoliadau Gofal Dydd

Dulliau o weithredu sy'n defnyddio nifer o gydrannau


Ysgolion Uwchradd












Cyfarwyddiadau Awyr Agored


Sgrinio Symptomau Bob Dydd

## Darganfyddiadau Anghyson


Ysgolion Cynradd


Maint Dosbarth


Gwell Awyru

# Adolygiad Cyflym Byw NCCMT: Darganfyddiadau

Increased Risk of transmission






**Dysgu hybrid/ rhan-amser yn y cnawd**

- Yn fwy tebygol y bydd myfyrwyr yn cymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol y tu allan i'r ysgol (mwy o gymysgu)
- Astudiaeth Canada
- Heb ei adolygu gan gymheiriaid

# Adolygiad Cyflym Parhaus Cochrane

Krishnaratne , S.,Littlecott , H., Coenen , M., et al. (2021) **Mesurau a roddir ar waith yn amgylchedd yr ysgol i ffrwyno'r pandemig COVID-19: adolygiad cyflym.**

**Cwestiynau'r Adolygiad :**
1. Beth yw goblygiadau'r mesurau hyn ar gyfer deilliannau nad ydyn nhw'n ymwneud â throsglwyddo (e.e. y defnydd o ofal iechyd, deilliannau iechyd ehangach a deilliannau economaidd, cymdeithasol ac ecolegol)?
2. Sut mae'r mesurau hyn yn cael eu rhoi ar waith o fewn amgylchedd yr ysgol?

# Meysydd Ansicrwydd / Bylchau mewn Tystiolaeth

Daw mwyafrif y dystiolaeth sydd ar gael o **UDA**
– gallai hyn gyfyngu ar y graddau y gellir cyffredinoli darganfyddiadau i gyd-destun Cymru

Mae llawer o’r astudiaethau sy’n dod i’r fei yn rhai **sydd wedi’u rhagargraffu/ sydd heb eu hadolygu gan gymheiriaid**
– yn galw am bwyll wrth ddehongli tystiolaeth

Nid yw’n glir pa effaith y bydd **brechlyn Covid a newidiadau i’r lefel rhybudd sero** yn ei chael ar gydymffurfiad â mesurau atal a rheoli haint

Dim tystiolaeth o effaith mesurau atal a rheoli haint ar **ddeilliannau eraill** fel:
cyfraddau plant yn mynd i’r ysbyty, diwrnodau ysgol yn cael eu colli, llesiant ac iechyd meddwl a datblygiad plant cyn-ysgol, neu ddeilliannau sy’n ymwneud â chysonder wrth eu rhoi ar waith

Mae’r dystiolaeth yn gyfyngedig ynglŷn ag **amrywiolion sy’n achosi pryder** neu effeithiau ar **boblogaethau anodd eu cyrraedd a lleoliadau addysg arbennig**

# Goblygiadau i Bolisi

Dylid ystyried **strategaethau sydd wedi'u seilio ar ddull o weithredu sy'n defnyddio nifer o gydrannau** ac sydd yn berthnasol i'r **sefyllfa leol o ran y pandemig** wrth gynllunio mesurau atal a rheoli haint ar gyfer ysgolion a lleoliadau addysg.

Mae angen rhagor o **astudiaethau sydd wedi'u dylunio'n dda ac sydd o ansawdd uwch**, yn enwedig o'r DU ac o wledydd Ewropeaidd eraill, er mwyn deall effeithiau mesurau atal a rheoli haint yn well mewn ysgolion a lleoliadau gofal dydd.






Wales COVID-19 Evidence Centre
Canolfan Dystiolaeth COVID-19 Cymru

**RE**search

**GENER**ation

**A**ssimilation

**T**ransfer

**E**mbedding

Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru
Health and Care Research Wales

**E-bost WCEC:**

WC19EC@cardiff.ac.uk

**Gwefan WCEC:**

Wales COVID-19 Evidence Centre | Health Care Research Wales (healthandcareresearchwales.org)

*Mae WCEC ac awduron y gwaith hwn yn datgan nad oes ganddyn nhw unrhyw fuddiannau sy'n gwrthdaro.*

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government